# Agenda - Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 – y Senedd**

Dyddiad: Dydd Iau, 12 Hydref 2017

Amser: 09.15

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Llinos Madeley**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddPPIA@cynulliad.cymru

## Private Pre-meeting

(09:15 - 09:30)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09:30)

**Dogfennau atodol:**

## 2 Y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) – Trafodion Cyfnod 2

(09:30 - 12:00)

Alun Davies AC - Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes
Emma Williams - Uwch Swyddog Cyfrifol
Tania Nicholson - Pennaeth Rhaglen Ddeddfwriaethol Anghenion Dysgu Ychwanegol
Mair Roberts - Yr Adran Gwasanaethau Cyfreithiol
Catherine Lloyd - Yr Adran Gwasanaethau Cyfreithiol

Mae dogfennau sy'n cydfynd â'r trafodion Cyfnod 2 ar gael ar **dudalen y Bil ar y we.**

## 3 Papurau i'w nodi

### 3.1 Llythyr gan y Llywydd – Senedd@Delyn

(Tudalennau 1 - 2)

Dogfennau atodol:

CYPE(5)-27-17 – Papur 1 – i'w nodi

### 3.2 Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg – Ymchwiliad i Addysg a Dysgu Proffesiynol Athrawon

(Tudalennau 3 - 5)

Dogfennau atodol:

CYPE(5)-27-17 – Papur 2 – i'w nodi

### 3.3 Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon – Ymchwiliad i Wella Iechyd Emosiynol ac Iechyd Meddyliol Plant a Phobl Ifanc

(Tudalennau 6 - 7)

Dogfennau atodol:

CYPE(5)-27-17 – Papur 3 – i'w nodi

### 3.4 Llythyr at Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg - Teithio gan ddysgwyr

(Tudalen 8)

Dogfennau atodol:

CYPE(5)-27-17 – Papur 4 – i'w nodi

### 3.5 Llythyr at y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes - Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Arweiniad a Hawliadau Ariannol

(Tudalen 9)

Dogfennau atodol:

CYPE(5)-27-17 – Papur 5 – i'w nodi

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod.

**Egwyl**

(12:00 - 12:10)

## 5 Ymchwiliad i Addysg a Dysgu Proffesiynol Athrawon - Trafod y prif faterion

(12:10 - 12:40)

(Tudalennau 10 - 35)

Dogfennau atodol:

CYPE(5)-27-17 - Papur preifat 6 (Saesneg yn unig)

## 6 Diweddariad ar y Flaenraglen Waith

(12:40 - 12:50)

(Tudalennau 36 - 40)

Dogfennau atodol:

CYPE(5)-27-17 - Papur preifat 7 (Saesneg yn unig)

## 7 Trafod yr ymateb i'r sesiwn graffu gyffredinol gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant

(12:50 - 13:00)

(Tudalennau 41 - 43)

Dogfennau atodol:

CYPE(5)-27-17 - Papur preifat 8 (Saesneg yn unig)

**Elin Jones AC, Llywydd**
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Elin Jones AM, Presiding Officer**
National Assembly for Wales



Cadeiryddion y Pwyllgorau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Eich cyf:
Ein cyf: EJ/GH

28 Medi 2017

Annwyl Gadeirydd

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, rydym wedi mynd â gwaith y Cynulliad i bobl Cymru drwy fenter Senedd@. Hyd yn hyn, rydym wedi mynd â'r fenter ar daith i Wrecsam, Abertawe a Chasnewydd. Gwnaethom ddewis y lleoliadau hyn am fod nifer y rhai a bleidleisiodd yno yn etholiadau'r Cynulliad yn 2011 a 2016 yn arbennig o isel.

Cyflwynwyd rhaglen gynhwysfawr o ddigwyddiadau, ymweliadau a gweithdai fel rhan o Senedd@Wrecsam, Senedd @Abertawe a Senedd@Casnewydd, a gwnaethom gynnwys miloedd o bobl yn uniongyrchol yng ngwaith y Cynulliad. Gwnaethom hefyd feithrin perthnasau gwaith â sefydliadau lleol pwysig a'r cyfryngau lleol. Er mwyn cynnal y momentwm a grëwyd drwy ein hymweliadau â'r trefi hyn, a chan adeiladu ar y gwersi a ddysgwyd, rwy'n awyddus i gynnal digwyddiad arall fel rhan o fenter Senedd@ yn ystod yr wythnos sy'n dechrau ar 13 Tachwedd 2017. Etholaeth Delyn yw'r lleoliad a ddewiswyd ar gyfer menter nesaf Senedd@.

Un o brif ganfyddiadau'r gwerthusiad o fentrau blaenorol Senedd@ oedd bod angen galluogi pwyllgorau i ystyried eu cyfranogiad posibl yn llawer cynharach yn y broses gynllunio. Felly, rwy'n gwahodd unrhyw awgrymiadau sydd gan eich pwyllgor ynghylch sut y gallai gymryd rhan yn Senedd@Delyn.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
Llywydd@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru
0300 200 7403

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
Llywydd@assembly.wales
www.assembly.wales
0300 200 7403

**Elin Jones AC, Llywydd**
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Elin Jones AM, Presiding Officer**
National Assembly for Wales

Yn y gorffennol, mae pwyllgorau wedi cynnal cyfarfodydd ffurfiol mewn lleoliadau cymunedol fel rhan o fentrau Senedd@, gan achub ar y cyfle i annog pobl i gymryd rhan yn eu gwaith.  Bydd Senedd@Delyn yn gyfle gwych i'ch pwyllgor godi ei broffil ac ymgysylltu â'r cyfryngau a llawer o sefydliadau lleol.

Os bydd angen rhagor o wybodaeth arnoch, cysylltwch â Geraint Huxtable drwy ffonio 0300 200 6277 neu drwy anfon neges e-bost:
Geraint.Huxtable@Cynulliad.Cymru

Diolch ymlaen llaw am eich cymorth.

Yn gywir

Elin Jones AC
Llywydd

**Kirsty Williams AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg**
**Cabinet Secretary for Education**



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref MA - P-KW-3331-17

Lynne Neagle AM
Cadeirydd,
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc as Addysg

2 Hydref 2017

Annwyl Lynne,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 20 Medi.

Ar ran y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, rydych wedi gofyn am wybodaeth ychwanegol am rôl Cyngor y Gweithlu Addysg a'r safonau proffesiynol newydd ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth, er mwyn llywio gwaith y Pwyllgor.

**Swyddogaeth Cyngor y Gweithlu Addysg**
Yn eich llythyr rydych yn cyfeirio at benderfyniad y Cabinet ar 6 Gorffennaf 2015 i estyn pwerau Cyngor y Gweithlu Addysg. Roedd y papur yn nodi opsiwn ar gyfer cyfeiriad strategol y gallai Llywodraeth Cymru ddewis ei ddilyn o ran rôl y Cyngor yn y dyfodol. Roedd hyn hefyd yn cynnwys datblygu pasbort dysgu proffesiynol a sefydlu panel newydd i achredu addysg i athrawon o fewn y Cyngor.

Fel y bydd y Pwyllgor yn gwybod, mae'r Cyngor yn dal yn gorff cymharol newydd sydd wedi gweld cynnydd o fwy na dwbl yn nifer y rhai sy'n cofrestru ers ei sefydlu yn 2015. Ar ben hyn, mae'r Cyngor wedi cael y swyddogaeth i achredu addysg gychwynnol athrawon, ynghyd â chyfrifoldeb dros y pasbort dysgu proffesiynol. Mae'r rhain ill dau yn feysydd gwaith pwysig sy'n ehangu rôl y Cyngor. Byddant hefyd yn cyflwyno meysydd newydd o waith i'r Cyngor lle bydd angen gallu ac arbenigedd gwahanol i'r hyn oedd gan hen Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru.

Hyd yn hyn, nid yw'r gweithlu addysg ehangach y mae'r Cyngor yn gyfrifol am eu cofrestru, wedi cyflwyno unrhyw sylwadau imi y dylai'r Cyngor gael rhagor o swyddogaethau.

O ganlyniad, mae'n hanfodol bod y corff newydd yn cael yr amser priodol i ymgyfarwyddo a chanolbwyntio ar y swyddogaethau craidd, er mwyn cyfrannu at ddatblygu ein hymgyrch genedlaethol ar gyfer addysg.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Wrth ddatblygu'r safonau proffesiynol newydd ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth, mynnais fod y model yn cael ei rannu'n ehangach. Mae nifer uwch nag erioed o'r sector wedi cymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu a phrofi'r safonau dros y 18 mis diwethaf. Roedd hyn yn cynnwys gweithdai, digwyddiadau i'r consortia, treialu safonau drafft gan ymarferwyr mewn ysgolion, ynghyd ag ymgynghoriad ffurfiol. Mae Cyngor y Gweithlu Addysg wedi chwarae rhan yn y gwaith o ddatblygu'r safonau proffesiynol, ac, ar y cyd ag Estyn ac undebau'r gweithlu, wedi rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am y datblygiadau gydol y daith. Dyma'r math o weithio mewn partneriaeth rwy'n dymuno ei weld, ac rwy'n ei annog, yn hytrach nag un corff yn cymryd rheolaeth lwyr.

Heb os, byddaf yn cysylltu â'r Cyngor os a phan fyddaf angen iddynt ymgymryd â swyddogaethau ychwanegol.

**Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth**
Mae'r model o safonau newydd yn disodli 55 o safonau gyda phum prif safon ac mae wedi cael ei groesawu gan y sector. Mae'r safonau'n canolbwyntio ar y nodweddion hanfodol hynny sy'n rhan o waith athrawon – addysgeg, cydweithio, arwain, arloesi, a dysgu proffesiynol. Mae disgrifyddion yn perthyn i bob safon sy'n dangos sut y gellid ei defnyddio yng ngwaith yr athro, yn ddibynnol ar amgylchiadau'r athro o ran rôl a gyrfa. Gall athrawon mewn swydd ac arweinwyr ysgolion ystyried y disgrifyddion mewn ffordd fydd yn eu helpu i ddatblygu wrth fynd ar drywydd dysgu proffesiynol gydol eu gyrfa.

Mae addysgu yn broffesiwn cymhleth a heriol, ac mae ymarferwyr wedi bod yn rhan allweddol o'r gwaith o ddatblygu'r disgrifyddion sy'n cynrychioli'r blociau adeiladu ar gyfer addysgu effeithiol.

Trof yn awr at roi'r safonau newydd ar waith, ac yn benodol, barn y Pwyllgor bod 'bwlch' rhwng y weledigaeth a'r dulliau gweithredu. Mae'r ffordd hon o weithio ar y cyd i ddatblygu'r safonau fel y nodir uchod, yn cael ei hategu yn y cyfnod gweithredu a'r dulliau sydd wedi cael eu rhoi ar waith i sicrhau bod y sector cyfan yn barod i ymgyfarwyddo â'r safonau.

**Rhoi'r safonau ar waith**
Nid yw cyflwyno'r safonau newydd yn newid rôl y rheini sy'n gyfrifol am ymsefydlu athrawon newydd gymhwyso yn sylweddol. Bydd mentoriaid yn parhau i gefnogi'r athrawon newydd gymhwyso o ddydd i ddydd ac yn gweithio gyda chydweithwyr i sicrhau bod yr athrawon newydd gymhwyso yn derbyn mentora a goruchwyliaeth o safon uchel drwy gydol y cyfnod ymsefydlu.

Mae swyddogion wedi bod yn gweithio gyda chydlynwyr ymsefydlu'r consortia ers mis Mawrth i sicrhau bod y mentoriaid yn barod, a bod ganddynt yr adnoddau priodol, i ddefnyddio'r safonau newydd gyda'r athrawon newydd gymhwyso o 1 Medi 2017 ymlaen. Mae pob consortiwm wedi cael £20,000 o gyllid ychwanegol i gefnogi eu rôl wrth roi'r safonau ar waith.

Gwahoddwyd y mentoriaid ymsefydlu a'r consortia i weithdy diwrnod o hyd ym mis Mawrth, dan arweiniad yr Athro Mick Waters. Yn y gweithdy, rhoddwyd sylw i'r safonau drafft a rôl y mentor, ac fe rannodd yr ysgolion a fu'n treialu'r safonau eu profiadau nhw a rhoi adborth.

Parhaodd y gwaith o hyfforddi mentoriaid yn ystod tymor yr haf a chyhoeddwyd y disgrifyddion terfynol ym mis Mehefin. Ym mis Gorffennaf, anfonwyd dogfen friffio at bob ysgol a chonsortiwm yn cynnwys yr wybodaeth ddiweddaraf o ran hynt y gwaith, yn codi ymwybyddiaeth am y safonau newydd, ac yn ategu'r amserlen ar gyfer gweithredu.

Datblygodd swyddogion ganllawiau ymsefydlu diwygiedig yn cynnwys y safonau newydd drwy weithio gyda'r consortia, ac fe'u cyhoeddwyd yn ystod tymor yr haf.

Gweithiodd swyddogion gyda chynrychiolwyr o'r sector Addysg Gychwynnol Athrawon a Chyngor y Prifysgolion ac Ysgolion ar gyfer Addysgu Athrawon i sicrhau bod newidiadau i'r meini prawf achredu yn cyd-fynd â'r safonau newydd, ac i godi ymwybyddiaeth o'r safonau newydd ymhlith athrawon newydd gymhwyso a oedd yn dechrau ar eu cyfnod ymsefydlu fis Medi.

Yn olaf, cafodd y safonau eu cyflwyno ar-lein mewn ffordd fwy hwylus i ddefnyddwyr ar 1 Medi, ac maent ar gael hefyd i ymarferwyr eu defnyddio drwy'r pasbort dysgu proffesiynol.

**Yr amserlen ar gyfer gweithredu**
Rwy'n cydnabod na fyddai symud y gweithlu addysg cyfan i ddefnyddio'r safonau newydd yn syth yn realistig. Dyna pam fy mod wedi rhoi blwyddyn i athrawon mewn swydd ac arweinwyr eu defnyddio'n raddol cyn iddynt ddod yn orfodol iddynt o fis Medi 2018 ymlaen.

O ran Addysg Gychwynnol Athrawon, bydd y safonau newydd yn cael eu mabwysiadu ym mis Medi 2019, yn dilyn blwyddyn bontio i sicrhau cysondeb. Mae'r amserlen wedi cael ei chytuno arni gyda Chyngor y Prifysgolion ac Ysgolion ar gyfer Addysgu Athrawon.

Hoffwn gadarnhau i'r Pwyllgor fod gan Lywodraeth Cymru bob ffydd y bydd y gweithlu addysg yn parhau i weithio'n gydweithredol ac yn effeithiol o dan y safonau newydd. Gobeithio bod yr wybodaeth hon yn rhoi'r sicrwydd yr oedd y Pwyllgor yn dymuno ei gael.

Yn gywir



**Kirsty Williams AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Cabinet Secretary for Education

**Vaughan Gething AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon**
**Cabinet Secretary for Health, Well-being and Sport**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA(P)VG/3145/17

Lynne Neagle AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

2 Hydref 2017

Annwyl Lynne,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 8 Medi ynghylch eich ymchwiliad i iechyd emosiynol ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc. Hoffwn wneud y sylwadau canlynol mewn ymateb i'ch cwestiynau.

Fel y gwyddoch, mae'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) yn arwain y rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc ac mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn ymwneud â'r Rhaglen, ond nid ydynt yn rheoli'r Rhaglen. Rwyf ar ddeall bod y Bwrdd Rhaglen wedi cytuno yn ddiweddar y dylai'r Rhaglen redeg tan ddiwedd 2018-19. Erbyn diwedd y cyfnod hwnnw, rwy'n disgwyl y bydd y Bwrdd Rhaglen wedi ystyried pa drefniadau etifeddol, os oes rhai, sydd eu hangen i sicrhau bod y gwelliannau wedi eu hymgorffori'n llwyr a'u bod yn gynaliadwy ar draws gwaith y sefydliad.

O ran yr ail gwestiwn am y cyfrifoldeb dros CAMHS, fel y gwyddoch, mae gwasanaethau'r GIG yn gyfrifoldeb sy'n dod o fewn fy mhortffolio i. Fodd bynnag, o gofio bod awtistiaeth yn rhan o gylch gwaith Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol, mae ganddi hithau hefyd ddiddordeb yn y maes. Yn fwy cyffredinol, mae gan unrhyw weithiwr proffesiynol neu asiantaeth sydd yn dod i gysylltiad â phlentyn, rôl i gyfrannu at lesiant emosiynol a meddyliol y plentyn hwnnw. Dyna pam mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo'n llwyr i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. I'r perwyl hwnnw, cyfrifoldeb Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg yw hybu iechyd a llesiant emosiynol mewn ysgolion, drwy ddiwygio'r cwricwlwm, cwnsela mewn ysgolion a gofal bugeiliol, a thrwy ddulliau seicoleg addysgol ac anghenion dysgu ychwanegol. Yn ddiweddar, wrth gwrs, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg fenter ar y cyd â mi i dreialu sut y gellir cryfhau llesiant ac iechyd meddwl mewn ysgolion. Mae cyllid newydd o £1.4m y tu cefn i'r fenter hon.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Hefyd, mae gan Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes gyfrifoldeb dros Bolisi Gwaith Ieuenctid a gwasanaethau ieuenctid, sy'n annog pobl ifanc i gyrraedd eu potensial llawn Mae gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant gyfrifoldeb dros sicrhau bod plant, eu anghenion a'u hawliau, yn greiddiol i ddatblygiad polisi a chyflenwi gwasanaethau, ac mae ganddo rôl benodol mewn perthynas ag anghenion plant o dan amgylchiadau penodol, megis plant sy'n derbyn gofal a sipsiwn, teithwyr a cheiswyr lloches.

O ran rheoli'r cyfrifoldebau hyn ar draws y portffolios, rwy'n cael trafodaethau cyson gyda'm cyd-aelodau yn y Cabinet a'm cyd-Weinidogion, yn ffurfiol ac yn anffurfiol er mwyn trafod y materion sydd yn gyffredin i'n cylchoedd gwaith. Mae'n swyddogion yn cynnal trafodaethau cyson ac mae nifer o fforymau'n bodoli er mwyn rannu gwybodaeth a llywio datblygiadau polisi.

Yn gywir,

**Vaughan Gething AC**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon
Cabinet Secretary for Health, Well-being and Sport

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

**National Assembly for Wales**
Children, Young People and Education Committee

Ken Skates AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Seilwaith

03 Hydref 2017

Annwyl Ken,

**Teithio gan Ddysgwyr**

Diolch am eich ymateb dyddiedig 28 Gorffennaf i'm llythyr yn ymwneud â theithio gan ddysgwyr yng Nghymru. Yn eich ymateb, rydych yn cyfeirio at y gwaith y mae'ch adran wedi ymgymryd ag ef yn adolygu'r trefniadau a'r canllawiau sydd ar waith. Byddai'r Pwyllgor yn falch o gael rhagor o wybodaeth am y gwaith adolygu a wnaed fis Mehefin 2016 mewn perthynas ag asesiadau risg awdurdodau lleol ar gyfer llwybrau cerdded i'r ysgol a'r arolygon ychwanegol a gynhaliwyd yn ystod haf 2017. Byddai'r Pwyllgor yn hoffi gwybod sut yr helpodd hyn ichi ddod i'r casgliad bod yr holl awdurdodau lleol yn cydymffurfio â'u dyletswyddau o dan Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008.

Byddai'r Pwyllgor hefyd yn hoffi cael rhagor o wybodaeth am yr adolygiad y mae swyddogion yn bwriadu ei gynnal ar sail y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru).

Gan fod fy llythyr gwreiddiol yn ymwneud â theithio gan ddysgwyr wedi'i anfon at Gomisiynydd Plant Cymru, NAHT a CLILC, rwyf wedi anfon copi o'r llythyr hwn atynt hefyd er gwybodaeth.

Yn gywir,

Lynne Neagle AC / AM
Cadeirydd / Chair

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddPPIA@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddPPIA
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCYPE@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCYPE
0300 200 6565

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

**National Assembly for Wales**
Children, Young People and Education Committee

Eitem 3.5

Elin Jones AC
Llywydd a Chadeirydd Pwyllgor Busnes Cynulliad
Cenedlaethol Cymru

03 Hydref 2017

Annwyl Elin,

**Cydsyniad Deddfwriaethol: Bil Arweiniad a Hawliadau Ariannol**

Fel y gwyddoch, gofynnwyd i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg adrodd ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (y Memorandwm) sy'n ymwneud â Bil Canllawiau Ariannol a Hawliadau Llywodraeth y DU.

Ystyriodd y Pwyllgor y Memorandwm a chyhoeddi ei adroddiad yn gynharach heddiw. Fel rhan o'i gasgliadau, tynnodd sylw at yr angen i ystyried ymhellach yr amser a neilltuwyd i bwyllgorau i graffu ar Femoranda. O ystyried rôl y Pwyllgor Busnes yn y broses o gyfeirio Memoranda a chytuno ar derfynau amser i bwyllgorau adrodd arnynt, roeddwn am dynnu sylw at baragraff perthnasol yr adroddiad:

> Mae'r Pwyllgor [PPIA] yn nodi, er nad yw'r Bil wedi cael ei ystyried yn yr ail Dŷ eto, gofynnwyd i Aelodau gyflwyno adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn o fewn pedair wythnos waith.  Yn y dyfodol, os bydd angen Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer Bil ar adeg ei gyflwyno, byddai'r Pwyllgor yn croesawu cael mwy o amser i graffu ar ddarpariaethau a fyddai'n destun i'r broses pedwar cam ar gyfer Biliau yn y Cynulliad fel arall.

Yn gywir

Lynne Neagle AC / AM
Cadeirydd / Chair

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddPPIA@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddPPIA
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCYPE@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCYPE
0300 200 6565

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 6

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 7

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon